**Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Ddeiseb P-05-886 Stopio'r Llwybr Coch (coridor yr A55/A494)**

---

Ar 22 Mehefin, rhoddais ddatganiad llafar i'r Senedd yn cyhoeddi oedi ar bob cynllun ffordd newydd wrth inni adolygu ein hymrwymiadau presennol yng Nghymru.

Mae gwyddonwyr y byd yn dweud wrthym mewn termau clir iawn fod angen inni leihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr ar frys. Er 1990, mae allyriadau Cymru wedi gostwng 31 y cant, ond er mwyn cyrraedd ein targed statudol o sero net erbyn 2050 mae angen inni wneud llawer mwy. Cawsom ein hatgoffa gan Bwyllgor Newid Hinsawdd y DU yr wythnos ddiwethaf, os ydym am gadw'r tymheredd o fewn terfynau diogel, yn y 10 mlynedd nesaf mae angen i ni fwy na dyblu'r holl doriadau rydym wedi'u rheoli dros y 30 mlynedd diwethaf.

Trafnidiaeth yw tua 17 y cant o gyfanswm ein hallyriadau ac felly mae'n rhaid iddi chwarae ei rhan. Yn gynharach eleni cyhoeddais strategaeth drafnidiaeth newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru, 'Llwybr Newydd'. Mae'n nodi gweledigaeth feiddgar ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru dros y ddwy ddegawd nesaf. Yr oedd yn cynnwys, am y tro cyntaf, darged newid dulliau teithio, sy'n ei gwneud yn ofynnol inni anelu at 45 y cant o deithiau drwy ddulliau cynaliadwy erbyn 2045, i fyny o 32 y cant ar hyn o bryd. Er mwyn cyflawni'r targedau hyn mae arnom angen symud oddi wrth wario arian ar brosiectau sy'n annog mwy o bobl i yrru, a buddsoddi mewn dewisiadau amgen go iawn sy'n rhoi dewis ystyrlon i bobl.

Mae swyddogion yng nghamau olaf sefydlu panel adolygu ffyrdd, a fydd yn cynnwys rhai o brif arbenigwyr y DU ar drafnidiaeth a newid yn yr hinsawdd. Bydd y panel yn ystyried gosod profion ar gyfer pryd mai ffyrdd newydd yw'r atebion cywir ar gyfer problemau trafnidiaeth, yn unol â strategaeth drafnidiaeth newydd Cymru. Ac rwyf am i'r adolygiad ystyried sut y gallwn symud gwariant tuag at gynnal a chadw ein ffyrdd presennol yn well, yn hytrach nag adeiladu rhai newydd, fel yr argymhellwyd gan Bwyllgor trawsbleidiol yr Economi, Seilwaith a Sgiliau yn y Senedd ddiwethaf.

Byddwn yn cyhoeddi cylch gorchwyl llawn yr adolygiad a'r aelodaeth lawn maes o law. Mater i'r panel fydd adolygu ein holl fuddsoddiadau ffyrdd arfaethedig, boed hynny'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ar y rhwydwaith ffyrdd strategol, neu'n anuniongyrchol, drwy grantiau, ar y rhwydwaith ffyrdd lleol, fel bod pob prosiect yn y dyfodol yn cyd-fynd â thair blaenoriaeth y strategaeth drafnidiaeth newydd: lleihau'r angen i deithio, er mwyn caniatáu i bobl a nwyddau symud yn haws o ddrws i ddrws drwy fathau cynaliadwy o drafnidiaeth , ac annog pobl i wneud y newid.

Bydd yr adolygiad yn darparu adroddiad cychwynnol i Weinidogion o fewn tri mis o benodi, gan nodi sut y bydd yn mynd ati i gyflawni ei dasg, a darperir yr adroddiad terfynol o fewn naw mis i hynny, gan nodi canfyddiadau'r adolygiad.

**Argymhelliad 1**
Na fydd gwaith dylunio manwl na rhagor o asesiadau effaith mewn perthynas â'r cynllun arfaethedig nes bod effeithiau pandemig Covid-19 ar batrymau traffig wedi'u hasesu'n llawn. Dylai'r dystiolaeth hon fod ar gael i'w hystyried fel rhan o unrhyw ymchwiliad cyhoeddus y mae'r cynllun arfaethedig yn ddarostyngedig iddo.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym wedi oedi pob cynllun ffordd newydd yng Nghymru. Bydd y Panel Adolygu Ffyrdd yn ystyried gosod profion ar gyfer pryd mai ffyrdd newydd yw'r atebion cywir ar gyfer problemau trafnidiaeth, yn unol â strategaeth drafnidiaeth newydd Cymru. Bydd eu canfyddiadau'n cael eu cyhoeddi unwaith y byddant wedi cwblhau eu hadolygiad.

Os fydd y panel adolygu yn argymell bod y cynllun yn cael ei ddatblygu yna yn ystod cam nesaf y gwaith datblygu dylunio rhagarweiniol, bydd y model traffig ar gyfer y cynllun yn cael ei ddiweddaru a'i ddatblygu'n fanylach er mwyn ystyried y patrymau traffig presennol gan gynnwys unrhyw effeithiau pandemig Covid-19. Bydd yr wybodaeth hon yn bwydo'r arfarniad economaidd a'r asesiad o'r effaith amgylcheddol ar gyfer y cynllun a gaiff ei gyhoeddi fel tystiolaeth a'i ystyried fel rhan o unrhyw ymchwiliad cyhoeddus y gallai fod ei angen.

**Goblygiadau ariannol –** Dim**.** Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes

**Argymhelliad 2**
Bod y cynllun arfaethedig yn cael ei asesu yn unol â'r Arweiniad diweddaraf ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (2017) yng ngham nesaf ei ddatblygiad.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Strategaeth Drafnidiaeth newydd Cymru yn ymgorffori'r defnydd o hierarchaeth cynllunio trafnidiaeth gynaliadwy, a bydd y panel yn defnyddio hyn i sicrhau ein bod yn annog teithio drwy gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus cyn cerbydau preifat. Er mwyn sicrhau bod y dull hwn wedi'i ymgorffori'n llawn yn ein penderfyniadau buddsoddi a'r rhai a wneir gan bartneriaid cyflawni eraill, rydym hefyd yn adolygu canllawiau Arfarniad Trafnidiaeth Cymru, ein fframwaith gwneud penderfyniadau ar gyfer prosiectau trafnidiaeth, fel ei fod yn gyson â 'Llwybr Newydd' ac yn defnyddio'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Os fydd y panel yn argymell bod y cynllun yn mynd yn ei flaen, mae Camau 1 a 2 WelTAG eisoes wedi'u cwblhau ar gyfer y cynllun hwn a arweiniodd at ddewis y llwybr a ffefrir (Opsiwn Coch) ym mis Medi 2017.

Fel rhan o gam nesaf y gwaith datblygu, bydd WelTAG Cam 3 (Achos Busnes Llawn) yn cael ei gynnal yn unol â'r fersiwn ddiweddaraf o WelTAG.

**Goblygiadau ariannol –** Dim**.** Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes

**Argymhelliad 3**
Bod ailasesiad manwl o'r costau sy'n gysylltiedig â'r cynllun yn cael ei gynnal a'i gyhoeddi. Dylai hyn gynnwys rhoi cyfrif am gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â gwaith cysylltiedig, megis gwaith sy'n gysylltiedig â'r opsiwn 'Llwybr Coch a Mwy' a'r gwaith uwchraddio sydd ei angen i Bont Sir y Fflint, gan gynnwys mesurau atal gwynt.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym wedi oedi pob cynllun ffordd newydd yng Nghymru. Bydd y Panel Adolygu Ffyrdd yn ystyried gosod profion ar gyfer pryd mai ffyrdd newydd yw'r atebion cywir ar gyfer problemau trafnidiaeth, yn unol â strategaeth drafnidiaeth newydd Cymru. Bydd eu canfyddiadau'n cael eu cyhoeddi unwaith y byddant wedi cwblhau eu hadolygiad. Bydd y Panel Adolygu Ffyrdd yn ystyried yr holl gostau perthnasol.

Pe bai'r panel adolygu yn argymell y dylai'r cynllun fynd yn ei flaen yna bydd cyllideb y cynllun yn parhau i gael ei diweddaru a'i hasesu drwy gydol y cam nesaf wrth i'r dyluniad gael ei ddatblygu ac i wybodaeth ychwanegol gael ei chasglu. Bydd cost unrhyw uwchraddio gofynnol i Bont Sir y Fflint, gan gynnwys mesurau atal gwynt, yn rhan o gyllideb gyffredinol y cynllun.

**Goblygiadau ariannol –** Dim**.** Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes

**Argymhelliad 4**

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw gynllun ffyrdd sy'n cael ei weithredu'n rhan o becyn ehangach o welliannau trafnidiaeth gyhoeddus yn yr ardal a bod cynlluniau megis Metro Gogledd Cymru yn cael eu cyflawni'n effeithiol.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym wedi oedi pob cynllun ffordd newydd yng Nghymru. Bydd y Panel Adolygu Ffyrdd yn ystyried gosod profion ar gyfer profi mai ffyrdd newydd yw'r atebion cywir ar gyfer problemau trafnidiaeth, yn unol â strategaeth drafnidiaeth newydd Cymru. Bydd eu canfyddiadau'n cael eu cyhoeddi unwaith y byddant wedi cwblhau eu hadolygiad.

Os bydd y panel adolygu yn argymell y dylai'r cynllun fynd yn ei flaen yna mae gan welliannau Coridor Sir y Fflint ran bwysig i'w chwarae o ran cyflawni uchelgeisiau hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru fel y nodir yn ei strategaeth, 'Llwybr Newydd'. Mae'r strategaeth yn cydnabod y gall mwy o wasanaethau lleol a mwy o gyfleoedd ar gyfer teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus olygu bod angen i lai o bobl ddefnyddio eu ceir.

Bydd y cynllun yn lleihau tagfeydd ar lwybrau eraill yn yr ardal, gan alluogi cyfleoedd i ddatblygu a gweithredu opsiynau teithio cynaliadwy fel rhan o'r pecyn ehangach o welliannau trafnidiaeth sydd wedi'u hintegreiddio'n effeithiol â chyflwyno Metro Gogledd Cymru.

Felly, mae'r cynllun yn rhan o amrywiaeth o brosiectau gwella trafnidiaeth am ddim sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd i ddarparu system drafnidiaeth aml-foddol yn yr ardal.

**Goblygiadau ariannol –** Dim**.** Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes

**Argymhelliad 5**
Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau y gwneir digon o waith ymgynghori gyda sefydliadau gan gynnwys Coed Cadw a Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod cam dylunio manwl y cynllun i liniaru a lleihau effeithiau ar ardaloedd o goetir hynafol.

**Ymateb: Derbyn**

Yr ydym wedi oedi pob cynllun ffordd newydd yng Nghymru. Bydd y Panel Adolygu Ffyrdd yn ystyried gosod profion ar gyfer pryd mai ffyrdd newydd yw'r atebion cywir ar gyfer problemau trafnidiaeth, yn unol â strategaeth drafnidiaeth newydd Cymru. Bydd eu canfyddiadau'n cael eu cyhoeddi unwaith y byddant wedi cwblhau eu hadolygiad.

Cynhaliwyd ymgynghoriad sylweddol eisoes â rhanddeiliaid drwy gydol datblygiad y cynllun hyd yma a bydd hyn yn parhau drwy'r camau nesaf. Roedd hyn yn cynnwys ymgynghori â chynrychiolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Sir y Fflint ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru drwy'r Grŵp Cyswllt Amgylcheddol lle cafodd cwmpas yr arolygon a'r asesiadau amgylcheddol cychwynnol eu trafod a'u cytuno. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos hefyd yn ystod 2017 lle gwahoddwyd yr holl randdeiliaid i roi sylwadau ar yr opsiynau llwybrau.

Bydd fy swyddogion yn sicrhau bod cyfarfodydd y Grŵp Cyswllt Amgylcheddol yn parhau drwy gamau nesaf datblygu'r cynllun ac ymgynghorir â sefydliadau gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru a Coed Cadw ar ddatblygu'r asesiad o'r effaith amgylcheddol a'r cam dylunio manwl i leihau'r effeithiau ar yr amgylchedd gan gynnwys ardaloedd coetir hynafol.

**Goblygiadau ariannol –** Dim**.** Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes

**Argymhelliad 6**
Dylai unrhyw ymchwiliad cyhoeddus a gynhelir ar ôl cyhoeddi'r Gorchmynion drafft gael llawer o gyhoeddusrwydd a bod yn hygyrch i'r holl breswylwyr mewn ardaloedd y gall y llwybr neu waith adeiladu ffordd newydd effeithio arnynt.

**Ymateb: Derbyn**
Yr ydym wedi oedi pob cynllun ffordd newydd yng Nghymru. Bydd y Panel Adolygu Ffyrdd yn ystyried gosod profion ar gyfer pryd mai ffyrdd newydd yw'r atebion cywir ar gyfer problemau trafnidiaeth, yn unol â strategaeth drafnidiaeth newydd Cymru. Bydd eu canfyddiadau'n cael eu cyhoeddi unwaith y byddant wedi cwblhau eu hadolygiad.

Os bydd y panel adolygu'n argymell bod y cynllun yn mynd rhagddo, fel gydag unrhyw ymchwiliad cyhoeddus, dilynir y gweithdrefnau deddfwriaethol gofynnol ar gyfer hysbysebu.

**Goblygiadau ariannol –** Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes

**Lee Waters**
**Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**